WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320502
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 6 Rhagfyr 2010
Ein cyf: HVT/1173W/fgb
Tudalen: 1 o 7

Mr Jonathan Morgan AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Gadeirydd

Ar 12 Tachwedd 2010, ysgrifennais atoch yn nodi fy mwriad i gyflwyno tair dogfen i'r Pwyllgor cyn eich cyfarfod ar 9 Rhagfyr, sef:

- Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ganlyniadau ei hadolygiad annibynnol o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru rhwng 2005 a 2010, a gomisiynwyd gennyf yn fuan ar ôl i mi ddechrau yn fy swydd fel Archwilydd Cyffredinol ar 1 Hydref 2010;

- Adroddiad fy nhîm archwilio mewnol ar ei adolygiad o drefniadau cyfrifyddu ariannol Swyddfa Archwilio Cymru; ac

- Adroddiad fy nhîm archwilio mewnol ar ei adolygiad o waith Swyddfa Archwilio Cymru sy'n mynd rhagddo ar drefniadau cofnodi.

Atodaf y ddau adroddiad cyntaf o'r rhain gyda'r llythyr hwn. Mae fy nhîm archwilio mewnol yn disgwyl gorffen ei waith ar yr adroddiad terfynol yn fuan, a byddaf yn rhoi copi o'r ddogfen honno i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd ar gael.

Meddyliais y byddai'n ddefnyddiol i mi roi crynodeb byr o negeseuon allweddol yr adroddiadau amgaeëdig yn y llythyr hwn ac i amlinellu'r camau rwyf eisoes wedi'u cymryd a'r rheini rwyf yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflwyno trefniadau llywodraethu a rheoli Swyddfa Archwilio Cymru mewn ffordd fwy cadarn a thryloyw.

## Cefndir

1. Ers i Jeremy Colman ymddiswyddo'n sydyn ym mis Chwefror 2010, mae ymchwiliad 'diwydrwydd dyladwy' Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgelu materion o bryder difrifol. Fy mwriad o hyd yw rhoi copi o'r adroddiad diwydrwydd dyladwy hwn i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, fe'm cynghorwyd y byddwn yn gweithredu yn groes i egwyddorion cyfiawnder naturiol ac y gallai camau cyfreithiol gael eu cymryd ar gyfer difenwad pe bawn yn

cyhoeddi'r adroddiad hwnnw heb gymryd pob cam rhesymol i gytuno ar gywirdeb ffeithiol ei gynnwys gyda Mr Colman yn gyntaf.

2. Yn arbennig, pan adawodd y cyn Brif Swyddog Gweithredu y sefydliad, roedd ei delerau gadael yn llawer mwy ffafriol na'r hyn a ddeallwyd gan uwch reolwyr eraill y sefydliad. Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw nad oedd y blaenddarpariaeth ar gyfer y setliad, sef £539,173, wedi'i gynnwys yng nghyfrifon blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2009/10 er bod y pecyn ymddeol o fewn y terfynau cyfreithiol. Felly, comisiynwyd Tîm Archwilio Mewnol Swyddfa Archwilio Cymru gan Gillian Body, yr Archwilydd Cyffredinol dros dro, i adolygu amgylchiadau'r mater.

3. Yn fuan ar ôl i mi gael fy mhenodi yn Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 1 Hydref 2010, rhannais fy nghasgliad rhagarweiniol gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai'r camau cywiro sydd angen eu cymryd mewn perthynas â'r driniaeth gyfrifyddu yn cael effaith ddifrifol ar sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru yn y tymor byr. Yn wir, gallai'r sefydliad fod mewn diffyg ariannol am gyfnod yn sgîl hyn. Hefyd, rhannais fy nghynlluniau cynnar gyda'r Pwyllgor o ran atgyfnerthu trefniadau llywodraethu a mantoli cyllideb Swyddfa Archwilio Cymru unwaith eto dros gyfnod o ddwy flynedd, yn ddelfrydol heb droi at geisiadau am ragor o arian.

4. Hefyd, rhoddais wybod i'r Pwyllgor fy mod wedi gwahodd y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol, gan ddefnyddio staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, i gynnal ymchwiliad manwl ac annibynnol i bolisïau ac arferion cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd cylch gorchwyl yr adolygiad hwnnw (sydd wedi'i atodi i adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) yn cynnwys archwiliad o'r dulliau archwilio mewnol a ddefnyddiwyd mewn perthynas â pholisïau ac arferion cyfrifyddu ac mewn perthynas â chydnabod incwm.

5. Bu trefniadau cydnabod incwm Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn destun honiadau a wnaed yn y cyfryngau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Roedd yr honiadau yn deillio o wybodaeth ddienw ac amhenodol a roddwyd gan bedwar aelod presennol o staff Swyddfa Archwilio Cymru ac un cyn-aelod o staff. Felly, o ganlyniad i hyn, ysgrifennais atoch ar 12 Tachwedd, ac at y Llywydd. Esboniais yn y llythyr hwnnw y camau helaeth yr oeddwn wedi'u cymryd i annog staff i gysylltu â mi'n uniongyrchol neu i gysylltu â thîm adolygu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gyfrinachol i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Gwnaeth y ddau undeb llafur ymdrechion tebyg gyda'u priod aelodau. Ac, fel y gwyddoch, cytunodd y Llywydd â'm cais ac anfon y deunydd a ddarparwyd gan y cyfryngau at y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrinachol.

6. Felly, dyma'r cefndir i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r adolygiadau archwilio mewnol. Credaf i'r ymchwiliadau hyn fod yn drylwyr ac yn gymesur. Rwyf eisoes wedi dweud wrth y Pwyllgor mai fy mwriad yw atgyfnerthu trefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru, felly ni fyddaf yn ailadrodd y manylion

yma. Fodd bynnag, byddant yn sail gadarn ar gyfer rhoi trefniadau llywodraethu priodol a her allanol gadarn ar waith, gan fy ngalluogi i fod yn hyderus y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn fy nghefnogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Adroddiad archwilio mewnol Swyddfa Archwilio Cymru 'Adolygiad o gyfrion yr Archwilydd Cyffredinol'**

7. Casgliad cyffredinol yr adolygiad Archwilio Mewnol oedd bod nifer o wenididau yn gysylltiedig â'r broses o lunio cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2009-10, a gyfrannodd at gamddatgan sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2010 ac at nifer o ddiffygion cyflwyniadol hefyd.

8. Roedd y casgliadau archwilio allweddol fel a ganlyn:

   a. Gwnaeth cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2009-10 gamddatgan sefyllfa ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, roedd agweddau ar eu cyflwyniad yn ddiffygiol ac roedd gwendidau mewn polisi ac arfer cysylltiedig;

   b. Rhaid cryfhau'r trefniadau llywodraethu ynghylch paratoi cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn sicrhau bod materion a allai fod yn ddadleuol yn cael eu trafod yn briodol;

   c. Nid yw trefniadau cyfrifyddu rheoli Swyddfa Archwilio Cymru yn ategu'r gwaith o gynhyrchu cyfrifon yr Archwilydd Cyffredinol yn effeithiol; a

   d. Nid oes gan Swyddfa Archwilio Cymru lefel addas o gronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd i roi digon o hyblygrwydd iddi wrth reoli ei busnes.

**Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 'Adolygiad o gyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru 2005-10'**

9. Gwnaeth adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gadarnhau pob un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad archwilio mewnol a restrir uchod. Roedd casgliadau allweddol adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel a ganlyn:

   a. Ni pharatowyd cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol priodol ers 2005-06;

   b. Mae'r methiant i gydnabod rhwymedigaethau parhaus yn llawn wedi cael effaith sylweddol ar sefyllfa gyflenwi Swyddfa Archwilio Cymru;

   c. Nid yw polisïau cyfrifyddu na thriniaethau cyfrifyddu wedi eu cymhwyso'n gyson;

d. Nid yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer adolygu a chymeradwyo'r cyfrifon wedi gweithio'n effeithiol;

e. Mae'r Fframwaith Adrodd Ariannol yn hen, ac mae angen egluro cyfrifoldebau ariannol yr Archwilydd Cyffredinol.

10. Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 12 Tachwedd, fel rhan o'i hadolygiad, adolygodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol brosesau Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cydnabod incwm hefyd, a chanfuwyd bod y rhain yn cydymffurfio â safonau cyfrifyddu a'u bod yn addas at y diben. Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gwneud gwaith manwl (gan gynnwys profion samplu sylweddol) mewn ymateb i'r honiadau fod cyrff archwiliedig wedi'u bilio am waith nas gwnaed. Er nad oedd adolygiad manwl o'r materion hyn yn rhan o'i chylch gorchwyl gwreiddiol, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi trafod y broses o gyflawni ei gwaith ar gydnabod incwm gyda'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ac wedi adolygu peth o'i gwaith gwreiddiol ac mae o'r farn bod ei methodoleg yn gadarn.

11. Rhoddodd y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol wybod i mi ar 2 Rhagfyr nad yw wedi derbyn tystiolaeth bellach i gadarnhau'r honiadau sy'n ymdrin â materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn neu fel arall. Rwy'n ymwybodol bod y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi ysgrifennu at y Llywydd yn sôn am faterion tebyg.

12. Nid oes unrhyw wybodaeth benodol ar gael y gellid gweithredu arni, ond er gwaethaf hyn, yn unol â'r gwaith archwilio mewnol sy'n mynd rhagddo, comisiynais adolygiad o'r trefniadau rheoli mewnol yn cwmpasu'r rhaglen gyfan o waith perfformiad iechyd a llywodraeth leol ers 1 Ebrill 2005. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys miloedd o brosiectau unigol, yn llythrennol. Rwy'n bwriadu trafod cynnydd a statws y gwaith ar gydnabod incwm gyda'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr, a byddaf hefyd, wrth gwrs, yn rhoi copi o'r adroddiad archwilio mewnol terfynol i chi pan fydd ar gael.

## Camau i fynd i'r afael â materion o bwys

13. Fel yr wyf eisoes wedi egluro i'r Pwyllgor, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru rôl hanfodol i'w chwarae o ran cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly, rwy'n benderfynol o sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarn er mwyn iddi allu cyflawni ei gwaith hanfodol mewn ffordd sy'n ennyn hyder y cyhoedd. Rwyf wedi derbyn yr holl argymhellion a wnaed yn adroddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

14. Nodir fy nghasgliadau cyffredinol a'r camau cysylltiedig isod:

   a. Rwy'n ddiolchar i'r Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am eu hadolygiad annibynnol ac awdurdodol o bolisïau ac arferion cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, byth ers iddi gael ei chreu yn 2005.

   b. Mae'n galonogol fod canfyddiadau adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cadarnhau canfyddiadau adolygiad (mwy cyfyng ei ffocws) y gwasanaeth archwilio mewnol o gyfrifon 2009-10 yn llwyr. Mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddangos y safonau uchaf o ran cyfrifyddu cyhoeddus, fel y nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, ac yn unol â hyn rwy'n bwriadu sicrhau yr eir i'r afael yn briodol â phob diffyg datgelu a nodwyd yn Atodiad B o adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ein cyfrifon ar gyfer 2010-11.

   c. Roedd gwendidau amlwg yn y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith rhwng 2005 a 2010. Roedd sefydlu cyrff newydd a arweinir yn Anweithredol ar gyfer Cydnabyddiaeth ac Adnoddau, ynghyd ag ailddiffinio cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, yn gamau cyntaf pwysig ar gyfer datrys y problemau hyn yn fy marn i. Rwyf hefyd yn bwriadu atgyfnerthu polisïau a phrosesau mewnol. Fodd bynnag, roedd achosion lle na ddefnyddiwyd polisïau na phrosesau a oedd eisoes yn bodoli yn y ffordd gywir. Gwnaeth methiannau clir o ran cywirdeb ar lefelau uchaf y sefydliad waethygu'r sefyllfa, gan gynnwys cyfarwyddyd gan Mr Colman y dylai'r Pennaeth Cyllid gadw bodolaeth a chynnwys y pecyn ymddeol y cytunwyd arno gyda'r Prif Swyddog Gweithredu sy'n ymadael yn hollol gyfrinachol rhag pob aelod arall o staff yn Swyddfa Archwilio Cymru. Felly, mae sefydlu dulliau mewnol sy'n darparu mesurau diogelu ychwanegol yn flaenoriaeth i mi. Byddant yn sicrhau bod uwch aelodau o staff yn cymryd rhan lawn a phriodol mewn trefniadau rheoli ariannol a materion yn ymwneud â chyfrifyddu ac y ceir dealltwriaeth lawn o oblygiadau ariannol penderfyniadau ynghylch rheoli adnoddau dynol. Bydd y mesurau hyn, ar y cyd â phwyllgorau llywodraethu newydd, yn sicrhau ffordd gadarn a chydlynol o gadw cydbwysedd. Bydd hyn yn rhoi fframwaith priodol i mi sicrhau atebolrwydd clir yn ein penderfyniadau, heb beryglu annibyniaeth statudol priodol a hanfodol Archwilydd Cyffredinol.

   d. Ers i Swyddfa Archwilio Cymru gael ei sefydlu, mae llawer o aelodau staff wedi credu ei bod yn hanfodol mantoli'r gyllideb yn llwyr (heb alw ar y Cynulliad am amcangyfrif ategol na rhoi arian nas gwariwyd i Gronfa Gyfunol Cymru) yn y cyfrifon blynyddol. Roedd disgwyliad o'r fath yn afrealistig o ystyried y trefniadau ariannu y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu oddi tanynt ac arweiniodd hyn at arferion cyfrifyddu amhriodol. Yn fy marn i, dylai Swyddfa Archwilio Cymru geisio adennill

costau - dyma'r nod ariannol craidd, o un flwyddyn i'r llall, gan gydnabod bod cymhlethdod ein ffrydiau incwm, ein gweithgareddau busnes a'n patrymau gwariant yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y gwnawn fantoli'r gyllideb yn llwyr mewn unrhyw flwyddyn gyfrif. Fodd bynnag, er mwyn creu lefel briodol o gronfeydd gweithredu wrth gefn ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, bydd angen rhagor o arian ac, yn statudol, dim ond o waith archwilio llywodraeth leol neu o Amcangyfrif blynyddol neu atodol uwch y gallwn gymryd yr arian hwn. Felly, byddaf am ystyried hyn yn fwy gofalus.

e. Mewn perthynas â rôl archwilwyr allanol Swyddfa Archwilio Cymru, nodaf eu bod wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon blynyddol bob blwyddyn, er bod adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o'r cyfrifon hyn wedi nodi llawer o ddiffygion sylweddol o ran y modd y cawsant eu cyflwyno. Mewn perthynas â chyfrifon blynyddol 2009-10, rwy'n poeni'n fawr na wnaethant dynnu sylw'r Archwilydd Cyffredinol dros dro, aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg na Chadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at farn archwilio y mae'n rhaid ei hystyried yn bwysig. Roedd y farn archwilio hon yn cefnogi hepgor unrhyw ddarpariaeth ar gyfer costau pensiwn yn y dyfodol yn deillio o ymadawiad y cyn Brif Swyddog Gweithredu. Mae fy archwilwyr mewnol wedi nodi yn eu hadroddiad bod yr archwilwyr allanol yn parhau i honni bod y driniaeth gyfrifyddu'n gywir ac y gallent fod wedi rhoi barn archwilio amodol pe bai darpariaeth wedi'i chynnwys - safbwynt sy'n hollol groes i safbwynt y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r rhain i gyd yn faterion y bydd y Pwyllgor, heb os, am fynd i'r afael â hwy gyda'r archwilwyr allanol.

f. Yn amlwg mae digwyddiadau eleni a'r sylw negyddol y mae hyn wedi'i gael yn y cyfryngau wedi effeithio ar forâl y staff. Roedd darganfod methiannau o ran cywirdeb ar lefelau uchaf y sefydliad a gwendidau yn nhrefniadau llywodraethu a rheoli Swyddfa Archwilio Cymru yn ergyd i forâl aelodau o staff sy'n gweithio'n galed ac sy'n ymrwymedig iawn, a cheir pryder yn y sefydliad o ganlyniad i hyn. Gwnaeth rhai unigolion penodol hefyd geisio cyhuddo'r sefydliad o honiadau a wnaed yn ddienw neu'n ddi-sail, ac roedd effaith hyn hyd yn oed yn fwy niweidiol. Rwyf wedi ei gwneud yn hollol glir i'r staff bod camau priodol y gallant eu cymryd i leisio unrhyw bryderon sydd ganddynt ac fy mod bob amser yn barod i wrando ac, os oes angen, gymryd camau priodol. Fodd bynnag, ni fyddaf yn gwario arian cyhoeddus yn barhaus ar ymateb i honiadau di-sail ynghylch gweithrediadau a fu (y mae rhai ohonynt yn gysylltiedig â chyrff rhagflaenol), nac ynghylch unigolion sydd wedi gadael Swyddfa Archwilio Cymru ers amser.

g. Rwyf o'r farn y gellir adfer morâl y staff dros amser os caiff penderfyniadau eu gwneud mewn ffordd fwy agored, os ceir atebolrwydd cliriach a threfniadau cyfathrebu mewnol gwell. Ynghyd â'm tîm rheoli, rwy'n gwerthfawrogi cefnogaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yr Undebau Llafur a llawer o gydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus yn fawr iawn yn ystod y cyfnod anodd hwn. Heb os, y ffordd orau o wella morâl y staff yn y dyfodol agos fydd drwy anghofio'r digwyddiadau anffodus hyn a symud ymlaen. Rwy'n gwybod bod fy staff a'r ddau undeb yn awyddus i Swyddfa Archwilio Cymru ganolbwyntio ar gyflawni gwaith o safon sydd wedi'i seilio'n glir ar lefelau priodol o atebolrwydd a gonestrwydd ac sy'n cefnogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol difrifol.

Gobeithio bod y llythyr hwn wedi rhoi trosolwg defnyddiol i chi a'ch cydaelodau yn y Pwyllgor o'r deunydd i'w ystyried yn eich cyfarfod ar 9 Rhagfyr. Edrychaf ymlaen at y sesiwn honno a thrafodaethau pellach gyda'r Pwyllgor ynghylch archwilio cyrff cyhoeddus Cymru yn effeithiol yn ystod y misoedd i ddod.

Yn gywir,

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Wedi ei amgáu

Copi i: Amyas Morse, Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol